# Hyrwyddo eich digwyddiad

Noson Allan Night Out

## Cyngor am farchnata digwyddiadau a gwerthu tocynnau

1. **Rhaid wrth gynllun:** Bydd cynllun yn nodi'r gynulleidfa rydych am ei denu a sut i'w wneud. Bydd yn fodd lleddfu ar eich gofidion ar y funud olaf gan bennu amcanion clir ac amserlen.
2. **Lleoliad:** Beth sy'n unigryw a gwahanol am y digwyddiad? Pam dylai pobl ddod i'ch sioe? Meddyliwch am y buddion i'ch cwsmeriaid. Pwysleisiwch pa mor bwysig yw cefnogi digwyddiadau byw yn eich cymuned a'r arian sydd i'w arbed o beidio â gorfod teithio.
3. **Eich marchnad darged:** Pwy fydd yn dod i'r sioe? Byddwch yn onest! Pwy yw eich cynulleidfa bresennol? Pwy rydych yn ceisio ei gyrraedd? Ydy'ch sioe yn addas i'r gynulleidfa sydd gennych yn y golwg? Gyda sioe i'r teulu, dylech dargedu pwyllgor neu Gymdeithas Rhieni ac Athrawon eich ysgol leol.
4. **Adnoddau:** Pa adnoddau sydd gennych? Cymorth pwy arall sydd ar gael? Gwnewch restr a allai gynnwys: amser, pobl, arian, arbenigedd, cysylltiadau, hysbysfyrddau lleol, siopau, ysgolion ac ati. Y nod yw symud rhywun o wybod dim am eich digwyddiad i brynu tocyn.
5. **Yn olaf, cael pobl i gymryd y cam:** A'r cam, wrth gwrs, yw prynu tocyn. Y ffyrdd arferol yw'r cyfryngau cymdeithasol, posteri, taflenni, y wasg, hysbysebion, e-byst, gwefan. Ond siarad â phobl yw'r ffordd fwyaf llwyddiannus. Mae arolygon yn dangos bod 50% o gynulleidfaoedd yn dod oherwydd bod rhywun arall wedi dweud wrthynt am y sioe. Mae'n effeithiol oherwydd bod un sydd eisoes yn awyddus i fynd yn perswadio un arall i fynd.



Krosswindz, Digwyddiad Pwyllgor Puja Cymru. Canolfan Gymunedol Penyrheol (Llun: Nuria Serna)

# Ffyrdd o farchnata

## Y cyfryngau cymdeithasol

Dyma'r ffordd orau o gyrraedd eich cynulleidfa leol. Mae Gweplyfr yn ddelfrydol i hysbysebu'r digwyddiad gyda phoster a gwybodaeth. Yno gallwch rannu clip o'r sioe neu ar Instagram â'r hashnod #Noson Allan. Cofiwch roi dyddiad ac amser y digwyddiad yn eich post a'r ddolen i gael tocyn er mwyn annog pobl i brynu'n syth ar eu ffôn. Gallwch atgoffa pobl am y digwyddiad drwy X (Trydar) ac Instagram ac anfon pytiau o wybodaeth i gadw eu diddordeb. Anogwch bobl i rannu'r hyn rydych yn ei bostio.

## Posteri

Wrth roi manylion ar bosteri, gwnewch yn siŵr fod modd eu darllen yn hawdd ac o bell. Peidiwch byth â defnyddio PRIF LYTHRENNAU am y cyfan! Rhowch y teitl, y dyddiad a'r lleoliad yn gyntaf, wedyn yr amser a'r pris a sut i gael tocyn. Os na allwch argraffu'r manylion ar y poster, gludwch ddarn o bapur gyda'r manylion wedi'i argraffu arno.

## Y wasg

Os oes gennych stori, anfonwch ddatganiad syml at y wasg a'ch cyngor lleol hefyd. Gofynnwch i gylchgrawn lleol eich pentref neu'ch plwyf am ei ddyddiad cau.




*How to be Brave*, Dirty Protest, Canolfan Gymunedol Heol Eton Casnewydd (Llun: Creative Fez)




## Gwefannau

Mae gwefannau gan y rhan fwyaf o sefydliadau newyddion ac efallai y bydd gwefan i'ch pentref neu'ch cymuned. Efallai y bydd yno restrau o ddigwyddiadau lleol hefyd.

## E-bost

Gwnewch restr dosbarthu drwy e-bost. Nid oes rhaid iddi fod yn ben-campwaith technolegol! Casglwch gyfeiriadau e-bost mewn digwyddiadau neu drwy holiaduron. Os ydych yn defnyddio Outlook neu ei debyg, defnyddiwch flwch copi dall ('bcc') fel nad yw pawb yn gweld cyfeiriadau e-bost pawb arall. Cofiwch Reoliad Diogelu Data Cyffredinol – rhaid cael cytundeb pobl i fod ar eich rhestr e-bost a rhaid iddynt allu tynnu eu henw hefyd.

## Hysbysebion

Gyda digwyddiadau bach, mae cost hysbysebion fel arfer yn fwy na'u gwerth. Ond gall cyfathrebu targedol ar y cyfryngau cymdeithasol fod yn fwy effeithiol. Mae sylw da yn y wasg a bod ar restr o ddigwyddiadau'n rhad ac am ddim – ond gall hysbysebion mewn papurau newyddion fod yn ddrud. Bydd gwell gwerth am eich arian o argraffu posteri a thaflenni. Os ydych wir yn meddwl mai hysbyseb yw'r ffordd ymlaen, dilynwch yr un egwyddorion ag ar gyfer posteri.

## Gwerthu tocynnau

Gwerthwch docynnau ymlaen llaw i fachu pobl yn syth. Gallech hefyd roi disgownt am docynnau ymlaen llaw (‘y cyntaf i’r felin…’). Ond rhaid ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl brynu tocyn (a chadw’r gwaith gweinyddol mor hawdd â phosibl). Bydd gwerthu ymlaen llaw’n gwneud diwrnod y perfformiad yn llai o straen i hyrwyddwyr o wybod bod rhai seddi wedi’u llenwi.

Gallwch werthu tocynnau dros y ffôn ond ffordd arall yw drwy eich siop leol. Mae modd defnyddio cwmni tocynnau ar-lein a dyma rai enghreifftiau: TicketSource, The Little Box Office, WeGotTickets, Eventbrite.

Mae’r rhan fwyaf yn codi tâl ychwanegol ar ben pris y tocyn i’r prynwr, felly ni ddylai fod yn gost i’r hyrwyddwyr. Y fantais o ddefnyddio gwasanaeth felly yw y gallwch roi’r ddolen archebu ar y cyfryngau cymdeithasol a bydd gennych gronfa ddata o gwsmeriaid ar gyfer eich sioe nesaf.

## Yn y digwyddiad

Nid diwedd marchnata yw cael y gynulleidfa yn eu seddi. Mae’r digwyddiad ei hun yn ffordd wych o gael pobl i ddod yn ôl wedyn. Gwnewch yn siŵr fod popeth yn rhedeg yn esmwyth a bod pobl yn gwybod beth sy’n digwydd. Os dywedwch y bydd rhywbeth ar gael, fel lluniaeth, rhaid iddo fod ar gael. Peidiwch ag addo unrhyw beth nad ydych yn hollol siŵr y gallwch ei ddarparu. Cofiwch nad oes rhaid ichi gystadlu â’r lleoliadau mawr. Yn y sioe, siaradwch â phobl i gael gwybod pam maent yn dod, beth maent yn ei hoffi, beth yr hoffent ei weld yn y dyfodol. Gofynnwch iddynt a hoffent fod ar eich rhestr e-bost. Gadewch ffurflenni adborth byr ar y seddi i ofyn am y sioe maent newydd ei gweld, pa un yr hoffent ei gweld nesaf ac am syniadau a sylwadau. Mae’n gyfle gwych hefyd i gasglu cyfeiriadau e-bost a manylion cyswllt pobl.



Theatr Bash Street, Ysgol y Graig
(Llun: Vision Foundation)

## Diogelu data

Os ydych yn casglu a chadw unrhyw wybodaeth, fel cyfeiriadau e-bost, rhaid ichi gofio am ddiogelu data. Os casglwch ddata at eich dibenion marchnata’n unig, nid oes rhaid rhoi gwybod am hynny i’r Cofrestrydd Diogelu Data. Ond rhaid ichi ddilyn egwyddorion diogelu data Deddf Diogelu Data 1998. Rhaid:

1. cael caniatâd bob amser wrth gasglu data.
2. defnyddio’r data ddim ond at y diben a nodoch wrth ei gasglu.
3. peidio â rhannu’r data na gadael i bobl eraill ei ddefnyddio (felly cofiwch anfon e-byst ym mlwch copi dall, ‘bcc’).
4. cadw’r data ar gyfrifiadur sydd wedi’i ddiogelu gan gyfrinair neu, os oes pobl eraill heb ganiatâd i ddefnyddio’r data yn mynd ar eich cyfrifiadur, ar ddyfais storio y mae modd ei symud.